TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 12 Hydref 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

# Atebion i'ch Cwestiynau

**Categori 1**

**"Rwy'n gwneud cais mewn perthynas â'r llinell o'r enw Blaenau Ffestiniog i Arhosfa Llyn Trawsfynydd.**
**Rwy'n chwilio am unrhyw fanylion am unrhyw gynlluniau sydd gan Trafnidiaeth Cymru (naill ai gynlluniau terfynol neu rai arfaethedig) ar gyfer y rhan segur o'r llinell. Gall hyn gynnwys cynlluniau ar gyfer cynnal a chadw, adnewyddu, clirio neu agor y llinell."**

Ar hyn o bryd, nid oes gan TrC gynlluniau ar gyfer y rhan o'r llinell dan sylw y tu hwnt i Flaenau Ffestiniog. Network Rail sy'n berchen ar y rheilffordd o Flaenau Ffestiniog i Arhosfa Llyn Trawsfynydd, ac mae gwaith clirio llystyfiant wedi cael ei wneud yn flaenorol gan drydydd partïon sydd â diddordeb gyda chaniatâd Network Rail. Nid oes gan TrC wybodaeth sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn.

Ar hyn o bryd, mae TrC yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau bod Rheilffordd Dyffryn Conwy yn darparu gwasanaeth trenau cadarn a dibynadwy. Bydd trenau newydd yn cael eu cyflwyno ar y rheilffordd dros y blynyddoedd nesaf i wella'r profiad ymhellach i gwsmeriaid. Mae rhagor o fanylion ar gael yma.

**Categori 2**

**"Rwy'n gwneud cais mewn perthynas â'r llinell o'r enw Blaenau Ffestiniog i Arhosfa Llyn Trawsfynydd.**
**Rwy'n chwilio am fanylion am unrhyw drafodaethau, pryderon neu gwynion y mae Trafnidiaeth Cymru wedi'u cael gydag unrhyw drydydd partïon ynghylch y llinell hon."**

Gan nad oes gan TrC gynlluniau ar gyfer y rhan segur o'r rheilffordd y tu hwnt i Flaenau Ffestiniog, nid oes trafodaethau wedi cael eu cynnal ac, o'r herwydd, nid oes manylion i'w darparu. Nid yw TrC wedi cael unrhyw gwynion na manylion am unrhyw bryderon am y llinell. Mae unrhyw bryderon neu gwynion a ddaw i law yn ymwneud â'r llwybr presennol yn unig, ac mae TrC yn gweithio'n agos gyda chwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r awdurdod lleol fel ei gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".